Humphrey Rowland Jones, 1832–95
Gweinidog (W) a diwygiwr

Humphrey Jones oedd un o'r cyfryngau a ddefnyddiwyd gan Dduw i gychwyn Diwygiad 1859–60. Yr oedd hwn yn un o'r diwygiadau ysbrydol grymusaf a welwyd hyd yn hyn yng Nghymru.

Ganed H.R. Jones yn Gwarcwm Bach, Llancynfelyn, 11 Hydref 1832 yn fab i Humphrey ac Elisabeth Jones. Ym 1847 ymfudodd ei rieni i America gan ei adael ef yng ngofal ei fodryb Sophia, yn Halfway Inn, Tre'r-ddôl, ac yntau yn ddim ond pum mlwydd oed. Ymsefydlodd y teulu yn Waukesha, Wisconsin, ac yna ym 1852 symudasant i sefydliad Cymreig Oshkosh, Wisconsin. Derbyniwyd Humphrey Jones yn aelod o'r eglwys Wesleyaidd yn Nhre'r-ddôl pan oedd ond yn ddeuddeg oed. Pan oedd yn bymtheg oed dechreuodd bregethu gyda'r Wesleaid, ac ar ôl chwe blynedd cyflwynwyd ef gan arolygwr y gylchdaith, y Parch. Williams Powell, fel ymgeisydd am y weinidogaeth Wesleaidd gan Gymdeithas Genhadol Llundain, a hynny yng Nghyfarfod Taleithol Nant-y-glo ym 1854.

Gwrthodwyd ei gais, unai ar sail diffyg cymwysterau, neu am nad oedd galw am weinidogion ychwanegol y flwyddyn honno, ac o gynlyniad ymfudodd i America at ei rieni, ei ddau frawd a'i chwaer. Yno ymunodd â'r eglwys Esgobol gan bregethu i'r Cymry yn Nhalaith Efrog Newydd. O fewn blwyddyn yr oedd wedi ei ordeinio'n ddiacon yng Nghynhadledd Racine a phenodwyd ef yn genhadwr i'r Cymry yn Oshkosh, Wisconsin.

Cafodd ei fendithio'n helaeth ymhlith y Cymry yn America am gyfnod o ddwy flynedd, ac yno y cafodd y glasenw Humphrey Jones, "Y Diwygiwr". Dywedir i tua 700 gael ei dychwelyd o dan eu weinidogaeth yn Oneida, Efrog Newydd, lle y pregethai yn Gymraeg a Saesneg. Ym 1857 cychwynnodd diwygiad grymus yn yr Unol Daleithiau o dan arweiniad Lanphler a dywedir bod 600,000 wedi dod i'r bywyd. Ond erbyn hynny teimlai Humphrey Jones ar ei galon y dylai ddychwelyd i Gymru a chyrhaeddodd

ddinas Lerpwl yn niwedd Mehefin 1858 yn llawn tân diwygiadol. Ar ei ailymddangosiad yn Nhre'r-ddôl sylwodd y bobl fod newid mawr wedi digwydd iddo a bod dwyster anghyffredin yn perthyn i'w weinidogaeth yn enwedig yn ei weddïau cyhoeddus.

Un o'i ddyletswyddau cyhoeddus cyntaf oedd cymryd rhan yn angladd William James, Llannerch, ac wrth iddo sefyll ar wal yn gweddïo cyffyrddwyd y galarwyr. Dechreuodd Diwygiad '59 mewn angladd. Cydiodd tân y diwygiad yn yr ardal honno gan ymledu trwy Gymru. Cyfarfu Humphrey Jones â David Morgan, Ysbyty, ym Mhont-rhyd-y-groes ym 1858 a gweithiodd y ddau am gyfnod yn cynnal cyfarfodydd diwygiadol. Ond yng ngwanwyn 1859 trawyd Humphrey Jones gan iselder ysbryd ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y diwygiad. Bu'n anhwylus am flynyddoedd lawer, ac er iddo ymuno â'r teulu yn America ym 1871, parhau i ddirywio a wnaeth ei gyflwr meddyliol. Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa bu rhaid i'w frodyr ei roi mewn ysbyty meddwl yn Winnebago ac yno y bu am bum mlynedd mewn cyflwr ansefydlog.

Wedi iddo gael ei ryddhau ailgydiodd mewn pregethu a phriodododd â merch John Owen, Corris, Meirionnydd, ond ergyd drom iddo oedd ei marwolaeth ym 1882. Crwydrodd trwy'r taleithiau yn pregethu i'r Cymry hyd nes iddo gael ei sefydlu'n weinidog eglwysi Annibynnol Cambria a South Bend, Minnesota, lle y gwasanaethodd hyd 1894. Dihoenodd ei iechyd a bu farw yn Chilton, Wisconsin ar 8 Mai 1895, a chladdwyd ei weddillion yn Brant, Wisconsin.